Tyddewi: Dinas Caru Gwenyn Gyntaf Cymru

Cyhoeddwyd Tyddewi'n ddinas 'Caru Gweny-n' gyntaf yng Nghymru.

Dyma'r achrediad cyntaf dinas gyfan menter Caru Gwenyn: cynllun sy'n annog ysgolion, busnesau a chymunedau i helpu ymladd yn erbyn dirywiad pryfed peillio.

Meddai Mike Chant, Maer Tyddewi: "Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn ein statws Caru Gwenyn ac yn falch o sut ddaeth y gymuned ynghyd i ofalu am ein tirwedd a bywyd gwyllt di-ail. Di-olch arbennig i Fferm Drychfilod Dr Beynon am gydgysylltu'r prosiect."



Glöyn trilliw bach ar ferfaen

Mae llawer o drigolion a busnesau lleol, Gerddi Agored Tyddewi, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Dinas Tyddewi wedi cefnogi'r prosiect trwy ddarparu bwyd a chynefin ar gyfer pryfed peillio a def-nyddio llai o blaladdwyr.

Un o brif weithrediadau'r statws Caru Gwenyn newydd yw Llwybr Pryfed Peillio Tyddewi. Mae'r prosiect arloesol, dan arweiniad Fferm Drychfilod Dr Beynon gyda chymorth Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth ac Atebion Bio-amrywiaeth, yn llwybr rhyngweithiol sy'n cysylltu safleoedd ymwelwyr ar draws Penmaendewi. Bydd pob 'safle' yn arddangos gwahanol bryfed peillio ochr yn ochr â'u cynefin neu borthiant. Yn anelu at deuluoedd, bwriad y llwybr addysgol yw cysylltu celfyddyd,

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP

PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyfrol 15 Rhifyn 2
Haf 2018

Yn y rhifyn hwn

Tyddewi: Dinas Caru Gwenyn Gyntaf Cymru **Tudalennau 1-2**

Ap Cod Morol Sir Benfro **Tudalen 2**

Prosiect *Llwybrau* **Tudalen 3**

Helfa Fawr Blodau Gwyllt Prydain **Tudalennau 3-4**

Achlysur Gweld Bywyd Gwyllt **Tudalen 4**

CNC yn dechrau prosiect amddiffyn rhag llifogydd yn Solfach **Tudalen 5**

Ymddiriedolaeth y Môr a "Blwyddyn y Môr" **Tudalen 6**

Prosiect Cysylltiadau Naturiol **Tudalennau 7-8**

Digwyddiadau **Tudalennau 9-11**

Manylion Cysylltu **Tudalen 12**

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

gwyddoniaeth a chadwraeth, gan ysbrydoli ymwelwyr i wneud yr un peth gartref. Bydd Llwybr Pryfed Peillio Tyddewi'n cael ei lansio yn haf 2018.

Meddai'r Arglwydd Elis-Thomas, y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon:

"Mae'n newyddion gwych y dyfarnwyd statws Caru Gwenyn i Dyddewi ac fe hoffwn longyfarch pawb dan sylw – ymdrech gymunedol go iawn. Rwy'n hynod falch ein bod wedi gallu cefnogi'r Llwybr Pryfed Peillio ac edrychaf ymlaen at y lansio yn yr haf. Gyda chynefin blodau gwyllt, celfwaith, gweithgareddau rhyngweithiol a dehongliad, rwy'n sicr y bydd yn boblogaidd gydag ymwelwyr a phobl leol ac y bydd yn gwella mwy ar enw da Cymru fel cyrchfan ymwelwyr bywyd gwyllt cynaliadwy gyda bri rhyngwladol."

Meddai Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig:

"Mae'n gryn gamp gweld Tyddewi'n dod yn ddinas Caru Gwenyn gyntaf Cymru. Mae lleoedd sy'n dda i bryfed peillio'n dda i bobl hefyd. Mae llecynnau glas naturiol a chysylltiad â bywyd gwyllt yn hanfodol i'n ffyniant, ac mae suo gwenyn yn creu ymdeimlad o le fel sŵn ein haf. Mae Cymru ar y blaen wrth dynnu sylw at bwysigrwydd y pryfed peillio hyn a'n rhan ni wrth eu gwarchod."

Os ydych yn credu y gallai eich ysgol, busnes neu gymuned Garu Gwenyn, neu i gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Cymru ar Bryfed Peillio, ymwelwch ag:



Cacwn ar fywlys

www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio

I gael rhagor o wybodaeth am Lwybr Pryfed Peillio Tyddewi, cysylltwch â Sarah Sharpe yn Fferm Drychfilod Dr Beynon, Tyddewi: sarah.sharpe@thebugfarm.co.uk.

Sarah Sharpe
Fferm Drychfilod Dr Beynon

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Ap Cod Morol Sir Benfro

Mae Cod Morol Sir Benfro'n gwarchod planhigion ac anifeiliaid môr rhyfeddol Sir Benfro, trwy godau ymddygiad gwirfoddol a chytuno ar gyfyngiadau mynediad tymhorol. Nawr fe all y codau ymddygiad, mapiau'r cyfyngiadau mynediad a gytunwyd, ffeithlenni bywyd gwyllt a gwybodaeth am rywogaethau ymosodol i gyd fod ar flaenau'ch bysedd ar eich dyfais IOS neu Android.

Mae nodweddion yn cynnwys:

- Codau ymddygiad ar gyfer morloi, adar môr a morfilod
- Gwybodaeth am y planhigion ac anifeiliaid y gallech eu gweld wrth archwilio'r morlin
- Y lle gorau i wylio rhai o'r anifeiliaid mwyaf poblogaidd
- Gallu hysbysu gweld bywyd gwyllt ar gyfer cofnodion bywyd gwyllt
- Gwybodaeth am ddaeareg Sir Benfro
- Gwybodaeth am rywogaethau morol ymosodol
- Mapiau cyfyngiadau mynediad a gytunwyd trwy ddefnyddio mapiau Gwgl, lloeren a delweddau PDF

Cael yr ap am ddim yma: http://www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/marine-code-app/

Jetske Germing. PCF

Prosiect *Llwybrau* Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Prosiect yw *Llwybrau* a sefydlwyd i gynorthwyo mwy o bobl gyrraedd byd mawr awyr agored Sir Benfro, ac mae'n adeiladu ar brosiect 'Eich Parc' a fu'n gweithredu rhwng 2012 a 2016.

Fe wyddom fod llawer o bobl yn cael buddiannau mawr i'w hiechyd, hapusrwydd, cyfleoedd gwaith ac ansawdd bywyd trwy fod yn fwy egnïol yn yr awyr agored, ond mae llawer yn methu mynd allan gymaint ag yr hoffent am resymau amrywiol.

Ar hyn o bryd mae sesiynau *Llwybrau*'n rhedeg bob dydd Mawrth a dydd Iau o 9.30 i 4.00 – fe allai fod rhai sesiynau byrrach a digwyddiadau blasu yn yr arfaeth hefyd. Mae sesiynau gwirfoddoli *Llwybrau* ar gyfer unigolion 16 oed a hŷn sy'n mynd allan i wneud gwaith ymarferol yn yr awyr agored ledled y Sir a'r Parc Cenedlaethol. Gallai'r rhain gynnwys adeiladu neu gynnal seilwaith llwybrau, neu waith cadwraeth yn ogystal â mynd i rai lleoedd rhyfeddol.



Mae'r prosiect yn helpu gyda chludiant (bws mini'n codi o amrywiol fannau a thalu costau teithio) ac fe all ddarparu offer a dillad i sicrhau bod pawb yn ddiogel a chysurus. Mae hyfforddiant mewn sgiliau ymarferol (fel plygu gwrych neu ddefnyddio offer) ar gael i gyfranogwyr a llawer o wahanol bethau diddorol cysylltiedig â'r awyr agored (fel archwilio cynefinoedd neu ffotograffiaeth awyr agored). Hefyd mae teithiau arbennig a diwrnodau gweithgaredd eraill.

I gymryd rhan, cysylltwch â Tom Iggleden, Swyddog Gwirfoddoli *Llwybrau*, tomi@pembrokeshirecoast.org.uk neu drwy ffonio 01646 624856

Tom Moses
PCNPA

Helfa Fawr Blodau Gwyllt Prydain 2018

https://www.plantlife.org.uk/wildflowerhunt/

Ers canrifoedd, mae plant wedi gwneud cadwyni blodau, wedi dal blodau menyn dan eu gên a dweud faint yw hi o'r gloch gyda chlociau dant y llew ond, i lawer, nid yw'r pleserau syml hyn yn rhan o'u bywydau mwyach. Nid yw 'blodyn menyn' i'w weld mewn rhai geiriaduron plant erbyn hyn hyd yn oed, gan adlewyrchu nad yw blodau gwyllt cyffredin yn rhan o iaith plant heddiw. Eto, mae ymchwil gan Plantlife yn dangos bod 70% o'r cyhoedd eisiau gwybod mwy am flodau gwyllt...

Mae cymryd rhan yn Helfa Fawr Blodau Gwyllt Prydain yn ffordd wych o fwynhau blodau, pa un ai ydych yn gyfarwydd â nhw neu beidio. A, thrwy ddweud wrth Plantlife beth welsoch chi, byddwch yn helpu ein gwaith i sicrhau bod mwy o flodau i bobl eu mwynhau.



Mae blodau'n hardd a diddorol. Beth am benlinio a chlosio at flodyn? Edrych a mwynhau a darganfod fymryn mwy.

Sut i gymryd rhan

Dim ond mynd allan i rywle lle gallai fod blodau gwyllt a hela! Mae croeso i gofnodion o bobman. Rydym wedi rhannu'r Helfa Flodyn Gwyllt yn dair adran –

- Y dref a'r ddinas (parciau, llwybrau, tiroedd ysgol, mynwentydd ac ati)
- Am dro yng nghefn gwlad
- I'r coed â ni

Dewiswch yr un sydd orau gennych heblaw eich gardd os nad oes ardal wyllt ynddi.

Ewch am dro gyda theulu, cyfeillion neu ar eich pen eich hun am ychydig heddwch. Gallwch gerdded am ddim ond munud neu ddau neu ddewis ardal fwy a gweld beth welwch chi.

Cofiwch fod eich cyfrif yn ddefnyddiol hyd yn oed os na welwch unrhyw flodau. Rydym eisiau gwybod beth sydd yna – a beth sydd ar goll. Wedyn, gallwn ymgyrchu dros fwy o flodau, fel bod mwy i chi gael hyd iddynt yn y dyfodol.

Helfa Blodau Gwyllt
PRYDAIN

Pwy sy'n cynnal yr Helfa Blodau Gwyllt?

Plantlife sy'n cynnal yr Helfa Blodau Gwyllt. Rydym yn elusen sy'n ymroddi i warchod planhigion brodorol y DU a helpu mwy o bobl eu mwynhau.

Mae blodau gwyllt yn hanfodol i'n planed gyda chymaint o natur yn dibynnu arnynt – gwenyn, ieir bach yr haf a ni. Nid yw blodau mor gyffredin ag yr oeddent ychydig ddegawdau'n ôl. Trwy gymryd rhan yn yr Helfa, byddwch yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni ynghylch ble mae blodau i'w cael. Bydd hyn yn helpu i ni ymgyrchu dros fwy o flodau gwyllt a rhoi mwy o wybodaeth i bobl sydd eisiau gweld mwy o flodau. Byddwch yn helpu i ni wneud y wlad yn lle prydferthach i fyw ac yn well i fywyd gwyllt.

Blodau gwyllt, planhigion a ffyngau sy'n cynnal bywyd ein holl fywyd gwyllt gyda'u lliw a chymeriad yn britho'n tirweddau. Ond, heb ein cymorth, mae'r etifeddiaeth naturiol amhrisiadwy hon mewn perygl o gael ei cholli. O fannau agored ein gwarchodfeydd natur i goridorau'r llywodraeth, byddwn yn gweithio'n genedlaethol a rhyngwladol i dynnu sylw atynt, dathlu eu harddwch, a gwarchod eu dyfodol.

Michael Krause

Plantlife

Plantlife

Achlysur Gweld Bywyd Gwyllt – cadwch y dyddiad

Bydd achlysur eleni ar ddydd Gwener 26 Hydref, yn Theatr y Torch, Aberdaugleddau - gyda siaradwyr gwych am fywyd Gwyllt rhyfeddol Sir Benfro.

Rhestr o bwy a Chystadleuaeth Ffotograffau i'w cyhoeddi'n fuan!

PCF

CNC yn dechrau prosiect amddiffyn rhag llifogydd yn Solfach

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi dechrau prosiect dwy flynedd yn Solfach, Sir Benfro fydd yn ceisio lleihau perygl llifogydd i'r gymuned leol.

Gan weithio gyda llawer o bartneriaid sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thirfeddianwyr lleol, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio technegau naturiol rheoli perygl llifogydd ynghyd â dulliau traddodiadol o 'Arafu'r Llif' a rheoli perygl llifogydd.


Argloddiau Gollwng

Roedd cyfnod cyntaf y gwaith hwn yn golygu gosod 11 arglawdd gollwng ar isafon ger maes awyr Tyddewi ar dir dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Sir Penfro.

Mae argloddiau gollwng yn caniatáu i lif dŵr arferol fynd danynt. Pan fydd llifogydd byddant yn helpu cadw'r llif yn ôl a chynyddu cyfraddau treiddio lleol. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae CNC yn bwriadu gosod argloddiau gollwng mewn mannau addas eraill yn ogystal â ffyrdd eraill o weithio gyda phrosesau naturiol ar hyd y cyrsiau dŵr lleol.

Bydd hyn yn gwella gallu Ardal Dal Llifogydd Pont y Cerbyd i amddiffyn cymunedau Felin Ganol a Solfach rhag llifogydd. Lleihau posibilrwydd gorlifo cymunedau mewn perygl yw un o'n nodau mwyaf a dyna pam rydym yn cadw golwg ar lefel afonydd 24 awr y dydd ac yn gweithio i osod rhagor o amddiffynfeydd lle gallwn.


Argloddiau Gollwng

Enghraifft o beirianneg werdd yw'r gwaith a ddechreuwyd yn nalgylch Solfach, lle mae ateb i broblem nid yn unig yn effeithio leiaf ar yr amgylchedd ond hefyd yn gallu gwella ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd.

Trwy weithio gyda phrosesau naturiol, rydym yn helpu rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy.

Mae'n gyffrous dechrau'r prosiect hwn ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n partneriaid eto a pherchenogion tir a chymunedau lleol yn y dyfodol.

Meddai'r Cynghorydd Cris Tomos, Aelod Cabinet Cyngor Sir Penfro dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg:

"Rydym yn falch iawn o gefnogi CNC yn y prosiect cyffrous hwn ac yn gobeithio y bydd yn arwain at drefn lawer gwell o amddiffyn rhag llifogydd yn y Felin Ganol a Solfach wrth ddal i warchod y cynefin naturiol.

"Mae'r prosiect yn enghraifft ragorol o weithio ar y cyd ar draws amrywiol sefydliadau, gydag amryw swyddogion yn rhoi cymorth o wahanol dimau yn y Cyngor Sir, yn ogystal â chefnogaeth a chyngor Partneriaeth Natur Sir Benfro."

Mair Rees
CNC

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth y Môr a “Blwyddyn y Môr”

Ers 2003, mae pob blwyddyn wedi bod yn flwyddyn y môr i Ymddiriedolaeth y Môr!

Mae ein canolfan yn Labordy’r Môr yn Wdig, sy’n edrych dros Harbwr Abergwaun, ar agor bob dydd drwy gydol y flwyddyn. Gydag Arddangosfa’r Môr, fe all ymwelwyr a phobl leol weld peth o’r bywyd gwyllt morol rhyfeddol sydd gennym ar garreg ein drws. Yn yr acwariwm dal a gollwng ar hyn o bryd mae pob math o bysgod lleol, cramenogion, a bywyd diddorol y môr gan gynnwys octopws a slefrod môr. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i ymwelwyr fel cyrsiau undydd, teithiau glan môr, a’r cyfle i gymryd rhan yn ein harolygon dolffiniaid a llamhidyddion.

Bwriad yr arddangosfa yw addysgu, ysbrydoli a diddanu, gyda’n staff a gwirfoddolwyr brwd yn mynd â phobl ar daith dywysedig ac yn esbonio’r gwahanol anifeiliaid, eu harferion a’u hamgylchedd a beth allwn ni wneud i warchod ein moroedd. Byddwn hefyd yn derbyn grwpiau ysgol a gallwn addasu’r ymweliadau hyn i’r ystod oedran arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg.



Rydym yn gwmni budd cymunedol ac yn denu a hyfforddi pobl leol fel gwirfoddolwyr i gyfranogi mewn amrywiaeth o swyddogaethau. Mae’r rhain yn cynnwys: tynnu llun esgyll llamhidyddion fel rhan o’n “Prosiect Llamhidyddion y Bobl” o fannau ar y tir fel Pen Caer a Swnt Ynys Dewi; a’n harolygon morfilod Môr Iwerddon



Arolwg gwirfoddolwyr

hirdymor ar y llong “Stena Europe” ar ei ffordd rhwng Abergwaun a Cuan Ros Láir yn ogystal â’r daith rhwng Caergybi a Dulyn ar y llong “Stena Superfast.”

Gyda’n harolygon ar y cwch bach Cartlett Lady, fe all pobl rannu cost y cwch gyda ni. Mae hyn yn caniatáu i ni wneud arolwg ymhell allan i’r Môr Celtaidd, Y Smalls ac Ynysoedd eraill Sir Benfro i chwilio am forfilod, heidiau mawr o ddolffiniaid cyffredin, môr-grwbanod lledraidd, morgwn a thiwna asgell las enfawr, pob un ohonynt wedi’u gweld ar deithiau’r llynedd.

I gael rhagor o fanylion y pethau y gallwch eu gwneud gyda ni, gan gynnwys ein cyrsiau hyfforddiant Sylwedydd Bywyd Gwyllt achrededig gyda Choleg Sir Benfro, neu gyfleoedd gwirfoddoli ac interniaeth, gwelwch ein gwefan https://seatrust.org.uk neu drwy ffonio 01348 874737 rhwng 10 am a 4.30pm

Cliff Benson
Ymddiriedolaeth y Môr

SEA TRUST CIC
(Community Interest Company)

Prosiect Cysylltiadau Naturiol

Llwyddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i sicrhau £12,300 o Gronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i gynnal prosiect rhagbrofol yn anelu'n benodol at fusnesau ymwelwyr sydd â thir yn y Parc Cenedlaethol. Nod y fenter yw annog busnesau ymwelwyr i fabwysiadu arferion rheoli tir sy'n creu cynefinoedd addas i fywyd gwyllt a hefyd i hyrwyddo gweithgareddau a phrofiadau ymwelwyr 'ymwybodol o fywyd gwyllt' lleol a fydd yn dod â buddiannau i'r amgylchedd a'r busnesau fel ei gilydd.

Cyfranogodd saith o fusnesau yn y prosiect, gan gynnwys Hostel Ieuenctid Maenorbŷr, Maes Gwersylla Brandy Brook, Gwesty Penhriw, Tyriet Farm (Bragdy Carreg Las), Maenordy Llwyngwair, May Cottage a Chastell Pictwn.

Cafodd pob busnes cyfrannog arolwg ecolegol o'u tir ynghyd ag adroddiad ecolegol ac argymhellion ar wella'u tir ac adeiladau ar gyfer bywyd gwyllt. Roedd yr adroddiad terfynol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am safleoedd a phrofiadau bywyd gwyllt o fewn cylch y busnes. Ffurfiodd hyn becyn gwybodaeth delfrydol yr anogwyd busnesau i'w rhannu'n uniongyrchol gyda'u hymwelwyr.




Gosod gwâl dyfrgi

Meddai Martin yn Hostel Ieuenctid Maenorbŷr, "Helpodd yr adroddiad i ni sylweddoli y gallem hyrwyddo bywyd gwyllt diddorol yma ar garreg ein drws yn ogystal â'r eitemau tocyn mawr fel yr ynysoedd a theithiau mewn cwch."

Drwy'r hydref a'r gaeaf buom yn gweithio gyda busnesau i weithredu amrywiaeth eang o brosiectau bioamrywiaeth a dehongli cyffrous. Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn helpu gosod blychau pathewod a gwâl dyfrgi (dim preswylwyr eto!) yn Tyriet Farm (Bragdy Carreg Las). Yng Ngwesty Penrhiw ger Tyddewi rhoddwyd arian gennym i brynu hadau cribell felen i helpu iddynt wella'r weirglodd sy'n cael ei rheoli ar bwys y gwesty. Mae'r gribell felen yn byw ar wair ac, felly, dylai ei hychwanegu at y weirglodd gynorthwyo lleihau grym y gweiriau. Mae staff y gwesty hefyd wedi dal rhai ffilmiau rhyfeddol o foch daear a llwynogod ar gamera trywydd a brynwyd gan y prosiect.

Ffilm o gamera bywyd gwyllt, Pen Rhiw





Mae staff Castell Pictwn wedi rheoli'r weirglodd o flaen y castell ers dros 16 mlynedd bellach ac fe'u gwobrwywyd gydag ymddangosiad eu tegeirian cyntaf y llynedd. Rhoddodd Cysylltiadau Naturiol arian tuag at dalu am ddylunio a phrynu bwrdd dehongli i dynnu sylw ymwelwyr at y cynefin hwn sydd mor arbennig a phrin.

Cafodd rheolwr y safle gwersylla ym Mharc Gwyliau Maenordy Llwyngwair ger Trefdraeth hyfforddiant ar gynnal sesiynau dowcio afonydd a phyllau. Cynorthwyodd y prosiect gyda phrynu'r offer angenrheidiol i ganiatáu iddi gynnal sesiynau drwy'r haf, gan ymgysylltu ymwelwyr a phobl leol ag Afon Nyfer sy'n ymlwybro drwy'r safle.



Un o nodweddion naturiol allweddol safle gwersylla Brandy Brook yw llawnder o goed aeddfed a hynafol. Mae'r coed hyn i gyd o oed tebyg ac roedd perchennog y safle gwersylla'n awyddus i blannu coed a fyddai'n cysgodi'r genhedlaeth nesaf o wersyllwyr. Nid yw coed mewn caeau mor gyffredin ag y byddent oherwydd eu bod yn llai cydnaws â ffermio dwys heddiw; mae coed newydd eu plannu mewn caeau'n wirioneddol brin ac roedd hwn yn gyfle bendigedig. Talodd y prosiect am 7 o goed tal (2-3 oed) ynghyd â llewys coed i amddiffyn rhag defaid pan fo'r caeau'n cael eu pori yn y gaeaf. Plannwyd y coed gan Ian Meopham, Ceidwad y Gorllewin, a gwirfoddolwyr o Ysgol Portfield.

Plannwyd rhai o'r gwrychoedd ar y safle gwersylla ryw 10-15 mlynedd yn ôl, gan olygu eu bod yn ddelfrydol i'w plygu. Ffurf draddodiadol ar reoli gwrychoedd yw plygu, sy'n anelu at wneud gwaelod gwrychoedd yn drwchus i sicrhau eu bod yn atal anifeiliaid – sydd, gyda llaw, yn eu gwneud yn well i fywyd gwyllt hefyd. Dewiswyd gwrych ar hyd llwybr cyhoeddus sy'n mynd drwy'r safle gwersylla i Tom Iggleden, cydweithiwr o'r Awdurdod, a'i Grŵp Gwirfoddolwyr Llwybrau ymosod arno. Roedd y Grŵp yn ddiolchgar i Gareth Evans, arbenigwr lleol ar blygu gwrychoedd, a roddodd ei amser i ddangos arddull newydd o blygu gwrych i ychwanegu at eu stôr. Mae angen rheoli amryw wrychoedd eto yn y safle gwersylla a gobeithiwn ymosod arnynt yn y dyfodol.

Daeth y prosiect i ben ym mis Mawrth eleni a bydd adroddiad cloriannu'r prosiect ar gael ar wefan yr Awdurdod yn fuan.

Sarah Mellor
APCAP

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park


Plygu gwrych yn Brandy Brook

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mehefin-Medi

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
1af Mehefin 14:00	Archwilio Glan y Môr, Caerfai	Anelwch am y traeth i gael antur gyda Cheidwad lleol y Parc Cenedlaethol, i archwilio byd hynod pyllau trai, creaduriaid y môr a darganfyddiadau glan y môr. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn	01437 720392
2il Mehefin	Wythnos Natur Cymru	Achlysuron drwy'r wlad i gyd yn ystod yr wythnos. Gwelwch y wefan i gael manylion.	https://www.biodiversitywales.org.uk/Wythnos-Natur-Cymru
15fed Mehefin	Gweithdy Garddio ar gyfer Bywyd Gwyllt, Castell Henllys	Gweithdy Garddio ar gyfer Pryfed Peillio gyda Jenny Steel, Ecolegydd Planhigion ac Awdur sydd wedi bod yn arbenigo mewn garddio ar gyfer bywyd gwyllt ers 30 mlynedd bron.	01239 891319
16eg Mehefin	Gweithdy Garddio ar gyfer Bywyd Gwyllt, Castell Henllys	Gweithdy Garddio ar gyfer Pryfed Peillio gyda Jenny Steel, Ecolegydd Planhigion ac Awdur sydd wedi bod yn arbenigo mewn garddio ar gyfer bywyd gwyllt ers 30 mlynedd bron.	01239 891319
17eg Mehefin 12:00	Picnic blynyddol - Gwarchodfa Natur West Williamston	Ymunwch â grŵp lleol De Sir Benfro ar eu picnic blynyddol yng Ngwarchodfa Natur West Williamston. Cyfarfod yn y maes parcio (SN 030 058).	01646 673912
23ain Mehefin 10:00	Adar Arfordir Sir Benfro, Marloes	Ymunwch â Dan, y Ceidwad lleol, ar daith gerdded ar hyd yr arfordir o ryfeddod Traeth Marloes i'r Parc Ceirw ym mhen pellaf Penrhyn Marloes.	01437 720392
23ain Mehefin 14:00	Gerddi Muriog Ystagbwll	Ymunwch â grŵp lleol Canol Sir Benfro ar dro dywysedig o gwmpas gerddi a choed yr ystâd gyda Haydn Garlick, Ceidwad y Parc Cenedlaethol. Cyfarfod ym maes parcio Gerddi Muriog Ystagbwll (97292 96120)	01646 278966
23ain Mehefin 20:30	Ystlumod Ysgafala ym Mhalas yr Esgob	Mae'r achlysur bythol-boblogaidd hwn yn eich gwahodd i fynd am dro bach min nos o gwmpas Palas yr Esgob, Tyddewi. Bydd Amanda, Ceidwad y safle, yn mynd â chi'n ôl drwy amser wrth iddi roi bywyd i'r adeilad a'r bobl a fu'n byw yno ar y daith dywysedig arbennig iawn hon.	01437 720392
24ain Mehefin 14:00	I Blith y Blodau Gwyllt, Dinbych-y-pysgod	Archwiliwch blanhigion Sir Benfro yn y gwanwyn a'r haf cynnar. Ymunwch â Vicky, arweinydd y Parc Cenedlaethol, a fydd yn enwi rhywogaethau, ac yn rhannu straeon ar eu hanes a'u defnyddiau amrywiol: meddygol, coginiol ac o gwmpas y tŷ.	01437 720392
11eg Gorffennaf 10:00	Crwts Natur, Gorllewin Angle	Achlysuron arbennig pan fydd brodyr a chwiorydd mawr yn yr ysgol! Ymunwch ag arweinwyr y Parc Cenedlaethol am weithgareddau a straeon llawn hwyl mewn mannau cyffrous o gwmpas y Parc.	01437 720392

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mehefin-Medi

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
14eg Gorffennaf 10:00	Adar Arfordir Sir Benfro, Martin's Haven	Ymunwch â Dan, y Ceidwad lleol, am daith gerdded ar hyd yr arfordir o ryfeddod Traeth Marloes i'r Parc Ceirw ym mhen pellaf Penrhyn Marloes. Mae'n cynnig golygfeydd rhagorol dros Ynysoedd Sgomer a Sgogwm.	01437 720392
18fed Gorffennaf 10:00	Crwts Natur, Pentre Ifan	Achlysuron arbennig pan fydd brodyr a chwiorydd mawr yn yr ysgol! Ymunwch ag arweinwyr y Parc Cenedlaethol am weithgareddau a straeon llawn hwyl mewn mannau cyffrous o gwmpas y Parc.	01437 720392
18fed Gorffennaf 14:00	I Blith y Blodau Gwyllt, Maenorbŷr	Archwiliwch blanhigion Sir Benfro yn y gwanwyn a'r haf cynnar. Ymunwch â Vicky, arweinydd y Parc Cenedlaethol, a fydd yn enwi rhywogaethau, ac yn rhannu straeon ar eu hanes a'u defnyddiau amrywiol: meddygol, coginiol ac o gwmpas y tŷ.	01437 720392
26ain Gorffennaf 11:00	O Bwll i Bwll yng Ngardd Goetir Colby	Cyfle i glosio a darganfod y bywyd gwyllt swynol yn nentydd a phyllau Colby. Gweithgareddau ymarferol a hwyl i'r teulu drwy'r dydd.	01834 811885
28ain Gorffennaf 11:00	Ymhlith y Pili Pala yng Ngwarchodfa Natur West Williamston	Ymunwch â grŵp lleol Canol Sir Benfro am dro gyda'r pili pala yng ngwarchodfa natur West Williamston. Mae'r daith gyda David Redhead, warden gwirfoddol a Chofnodwr Glöynnod Byw'r Sir. Cyfarfod yn y maes parcio wrth gefn. (SN0323805879)	01646 278966
28ain Gorffennaf – 5ed Awst	Gwylfa Genedlaethol Morfilod a Dolffiniaid	Mae gwahoddiad i'r cyhoedd gyfranogi mewn arolygon morfilod ar hyd a lled y DU fel rhan o 16eg Gwylfa Genedlaethol Morfilod a Dolffiniaid (NWDW) Sefydliad Gwylio'r Môr.	chiara.giulia.bertulli@seawatchfoundation.org.uk. http://www.seawatchfoundation.org.uk/nwdw/
30ain Gorffennaf 20:30	Ystlumod Ysgafala yng Nghaeriw	Mae'r achlysur bythol-boblogaidd hwn yn eich gwahodd i fynd am dro bach hamddenol o gwmpas Pwll y Felin yng Nghastell Caeriw i chwilio am ystlumod.	01437 720392
5ed Awst 12:00	Dirgelion Sgomer	Treuliwch ddau ddiwrnod ar yr ynys yn archwilio ochr gudd Ynys Sgomer. Mae gweithgareddau'n cynnwys dowcio pyllau trai, troeon y nos i weld rhyfeddod adar drycin Manaw, dal gwyfynod ac ymlusgo drwy'r ymlusgiad.	01656 724100
24ain Awst 20:30	Ystlumod Ysgafala ym Mhalas yr Esgob	Mae'r achlysur bythol-boblogaidd hwn yn eich gwahodd i fynd am dro bach min nos o gwmpas Palas yr Esgob, Tyddewi. Bydd Amanda, Ceidwad y safle, yn mynd â chi'n ôl drwy amser wrth iddi roi bywyd i'r adeilad a'r bobl a fu'n byw yno ar y daith dywysedig arbennig iawn hon.	01437 720392

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mehefin-Medi

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
27ain Awst 20:30	Ystlumod Ysgafala yng Nghaeriw	Mae'r achlysur bythol-boblogaidd hwn yn eich gwahodd i fynd am dro bach hamddenol o gwmpas Pwll y Felin yng Nghastell Caeriw i chwilio am ystlumod.	01437 720392
2il Medi 12:00	Wythnos Adar Drycin: Profiad Adar Drycin Manaw, Ynys Sgomer	Bydd bron hanner poblogaeth adar drycin Manaw'r byd yn teithio'r holl ffordd o Dde America dim ond i fagu ar Ynys Sgomer. Liw nos mae'r ynys yn atseinio gyda'u galwadau wrth iddynt ddychwelyd o ddiwrnod ar y môr. Gosgeiddig yn yr awyr ond lletchwith ar dir, mae'r adar hyn yn gwarantu cyfarfyddiad â bywyd gwyllt nad anghofiwch fyth.	01656 724100
10fed Medi 10:00	Crwts Natur, Castell Caeriw	Achlysuron arbennig pan fydd brodyr a chwiorydd mawr yn yr ysgol! Ymunwch ag arweinwyr y Parc Cenedlaethol am weithgareddau a straeon llawn hwyl mewn mannau cyffrous o gwmpas y Parc.	01437 720392
12fed Medi 10:00	Crwts Natur, Aberllydan	Achlysuron arbennig pan fydd brodyr a chwiorydd mawr yn yr ysgol! Ymunwch ag arweinwyr y Parc Cenedlaethol am weithgareddau a straeon llawn hwyl mewn mannau cyffrous o gwmpas y Parc.	01437 720392
14eg Medi 12:00	Gwyfynod Ynys Sgomer	Dewch i ddarganfod gwyfynod hudol Ynys Sgomer dros ddwy noson. Bydd amryw ddulliau dal gwyfynod yn cael eu defnyddio ac mae'n gyfle i ddysgu gan yr arbenigwyr a dal gwyfynod yn ymarferol. Bydd rhagor na phedwar o drapiau'n cael eu gosod bob nos.	01656 724100

Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

amphibian and reptile conservation

gwarchod amffibiaid ac ymlusgiaid

buglife Cymru

Darwin centre

Bumblebee Conservation Trust

FUW Undeb Amaethwyr Cymru

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

PLANED

Plantlife

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park

Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

WWBIC

WEST WALES BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH GORLLEWIN CYMRU

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST South and West Wales De a Gorllewin Cymru